Ministry of Justice

GRŴP BUSNES BARNWROL (JBG)

GWENT A DE CYMRU

# Ymgynghoriad ar aildrefnu ardaloedd cyfiawnder lleol yng Ngwent a De Cymru

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 2 Hydref 2015

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 13 Tachwedd 2015

GRŴP BUSNES BARNWROL (JBG)

GWENT A DE CYMRU

# Ymgynghoriad ar aildrefnu ardaloedd cyfiawnder lleol yng Ngwent a De Cymru

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn http://www.gov.uk/

## Ynglŷn â’r ymgynghoriad hwn

**At:**

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr y llys, partneriaid, ynadon, y farnwriaeth, staff ac unrhyw barti arall sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth o ran trefniadau cyfiawnder lleol yng Ngwent a De Cymru.

**Hyd:**

O 2/10/2015 tan 13/11/2015.

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) i:**

Ymgynghoriad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru

Uned Gefnogi Cymru
2il Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a’r Fro
Plas Fitzalan
Caerdydd CF24 0RZ

Ffôn: 029 2046 7767

Ebost: HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk

**Sut mae ymateb:**

Dylech anfon eich ymateb erbyn 13 Tachwedd 2015 at:

Ymgynghoriad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru
Uned Gefnogi Cymru
2il Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a’r Fro
Plas Fitzalan
Caerdydd CF24 0RZ

Ffôn: 029 2046 7767

Ebost: HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk

**Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich safbwyntiau:**

I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer ‘Ymholiadau’ uchod.

**Y papur ymateb:**

Bydd ymateb i’r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn: www.gov.uk

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 3 |
| Rhagymadrodd | 4 |
| Y cynigion | 5 |
| Holiadur | 9 |
| Amdanoch chi | 10 |
| Manylion cysylltu/Sut i ymateb | 11 |
| Egwyddorion ymgynghori | 14 |

## Crynodeb gweithredol

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i redeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol, sy'n galluogi cynnal rheolaeth y gyfraith a darparu mynediad at gyfiawnder i bawb.  Fel rhan o'n hymrwymiad i werthuso ein hystâd yn barhaus, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymgynghori ar ddyfodol Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili, a pha un ai a ddylid trosglwyddo'r gwaith i Lys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân sydd gerllaw o fewn Ardal Cyfiawnder Lleol Gwent.  "Yn dilyn yr ymateb a gyhoeddodd bod y ddau lys yn cau, gwahoddwyd y Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) lleol i ymgynghori ar newidiadau posibl i ffiniau'r Ardal Cyfiawnder Lleol (LJA).  Mae'r JBG wedi penderfynu yn briodol i ymgynghori, ac mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r opsiynau y maent yn ystyried sydd ar gael iddynt.

Mae'n rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM bwyso a mesur anghenion defnyddwyr llys lleol yn erbyn yr angen i wneud y defnydd gorau posibl o arian y trethdalwr wrth redeg y llysoedd yn effeithiol.  Oherwydd cysylltiadau teithio, efallai y bydd hi'n haws i rai defnyddwyr llys o ardal Caerffili deithio i Gaerdydd yn hytrach nag i Gasnewydd neu Gwmbrân.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn defnyddwyr lleol, y farnwriaeth, yr ynadaeth, staff, ymarferwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol a chynrychiolwyr etholedig i ddeall yn well yr effaith fyddai'r cynnig hwn yn ei gael ar y gymuned yng Ngwent.

## Rhagymadrodd

Cyhoeddir y papur hwn ar ran Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) Gwent a De Cymru sy'n cynnwys deiliaid swyddi barnwrol a rheolwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, sydd â chyfrifoldeb am reoli'r ffordd y gweinyddir cyfiawnder yn effeithiol ac effeithlon yn y llysoedd troseddol yng Ngwent a De Cymru.

Mae'n rhaid i'r JBG ystyried yr adnoddau sydd ar gael i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'i bartneriaid cyfiawnder troseddol i sicrhau bod achosion yn cael eu gwrando mewn modd amserol ac effeithlon. Un o'r blaenoriaethau o ran darparu cyfiawnder yng Ngwent, Caerdydd a Bro Morgannwg yw gwneud y defnydd orau o'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu ein gwasanaethau yn well i'n cwsmeriaid.

Mae Adran 8 Deddf Llysoedd 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i rannu Cymru a Lloegr yn Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJA). Gallai'r Arglwydd Ganghellor newid yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol drwy orchymyn, gan gynnwys eu huno. Ac mae'r Ddeddf yn gofyn iddo ymgynghori ag unrhyw ynadon sydd wedi eu neilltuo i'r ardaloedd ac unrhyw awdurdod lleol sy'n cynnwys yr Ardal Cyfiawnder Lleol, cyn y bydd y newidiadau yn cael eu gwneud.

Mae gan Ynadon awdurdodaeth genedlaethol felly gallant i gyd wrando ar y mwyafrif o achosion ni waeth pa ardal y maent wedi digwydd. Fodd bynnag, rhestrir achosion fel arfer yn yr Ardal Cyfiawnder Lleol ble ddigwyddodd y drosedd neu ym mhle mae'r diffynnydd yn byw. Er ei fod yn arfer cyffredinol i lysoedd Gwent restru gwrandawiadau cyntaf ar gyfer diffynyddion ar fechnïaeth yn y llys ynadon lleol, rhestrir treialon ar y dyddiad addas cyntaf sydd ar gael mewn unrhyw lys yng Ngwent, heb ystyried ym mhle mae'r diffynnydd yn byw. Felly, er enghraifft, byddai disgwyl i bobl sy'n byw yng Nghaerffili deithio i Gwmbrân am rai gwrandawiadau, a phobl sy'n byw yn Sir Fynwy deithio i Gasnewydd neu Gaerffili ar gyfer mathau eraill o wrandawiadau. Mae ynadon yn cael eu neilltuo i Ardal Cyfiawnder Lleol penodol am resymau gweinyddol ac fel arfer yn eistedd yn yr ardal y maent wedi cael eu neilltuo iddi, er ceir rhai eithriadau yn Adran 10 Deddf Llysoedd 2003.

Gan y cytunwyd i gau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili, bydd Ardal Cyfiawnder Lleol Gwent yn cynnwys Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân. Mae Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnwys Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro. Mae 420 o ynadon penodedig yng Ngwent a Chaerdydd a Bro Morgannwg ym mis Medi 2015, sydd wedi'u neilltuo i'r Ardal Cyfiawnder Lleol presennol fel a ganlyn:-

| | Nifer yr ynadon |
|---|---|
| Gwent | 215 |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | 205 |

Mae Ynadon sy'n eistedd yn y Llys Achosion Ieuenctid a Llys Achosion Teulu yn gwneud hynny fel aelodau'r paneli. Felly, bydd ynadon llys ieuenctid ac ynadon llys teulu'n parhau'n ynadon llys ieuenctid ac ynadon llys teulu pan fydd ardal cyfiawnder lleol newydd yn cael ei chreu, ac ni fydd angen cymryd unrhyw gamau dim ond i'r Arglwydd Brif Ustus eu neilltuo i'r ardal cyfiawnder lleol newydd.

## Y cynigion

Mae'r opsiynau i'w hystyried yn cynnwys:

1. Gwneud dim, cadw'r trefniadau presennol, gydag Ardal Cyfiawnder Lleol presennol Gwent ac Ardal Cyfiawnder Lleol presennol Caerdydd a Bro Morgannwg;

2. Tynnu Bwrdeistref Sirol Caerffili o Ardal Cyfiawnder Lleol Gwent, ac uno gydag Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd Caerdydd, Bro Morgannwg a Chaerffili. Byddai'r pedwar awdurdod unedol sydd ar ôl gyda Gwent yn aros, ac efallai'n cael ei hadnabod fel Ardal Cyfiawnder Lleol De Ddwyrain Cymru; neu

3. Tynnu Bwrdeistref Sirol Caerffili o Ardal Cyfiawnder Lleol presennol Gwent a rhannu Caerffili, gan aildrefnu rhan ohoni i uno ag Ardal Cyfiawnder Lleol y Cymoedd ac Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg neu aros o fewn Ardal Cyfiawnder Lleol Gwent fel bo'n briodol.

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gwneud y penderfyniad terfynol o ran newid Ardal Cyfiawnder Lleol yn dilyn ymgynghoriad statudol ac ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus, neu ei ddirprwy (fel arfer yr Uwch Farnwr Llywyddol yw hwn). Mae'n rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn bennaf ar yr angen i sicrhau bod mynediad at gyfiawnder a'r ffordd y delir â gwaith y llysoedd ynadon yn effeithiol. Bydd y penderfyniad yn ystyried anghenion cymunedau lleol ac isadeiledd y system cyfiawnder troseddol ehangach, lleoli ynadon a'u hanghenion hwy o ran cymorth, a llwyth gwaith a lleoli staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, fel y nodir yng nghanllaw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar y newidiadau i Ardaloedd Cyfiawnder Lleol. Mae'r ffactorau hyn wedi eu nodi isod.

**Sicrhau bod amser llys ac adnoddau adeiladau llys yn cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod llwyth gwaith yn cael ei gwblhau yn gyflym o fewn adeiladau llys sydd â chyfleusterau addas.**

**Sicrhau bod ynadon yn cael gwaith addas i gynnal eu cymwyseddau.**

**Galluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i gyflawni gwasanaeth mwy effeithlon i ddefnyddwyr y llys cyn, yn ystod ac ar ôl gwrandawiadau llys.**

**Sicrhau bod strwythur y fainc yn gynaliadwy ac yn addas i anghenion y busnes lleol.**

Mae gofyn i ynadon eistedd gyda chynghorwr cyfreithiol cymwys. Mae'r Canghellor yn gofyn bod ynadon yn eistedd am isafswm o 13 diwrnod llawn. Er mwyn caniatáu'r isafswm eisteddiadau, cafodd dyraniadau i Farnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) ei leihau yn Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg.

Mae canolfan llysoedd newydd addas i'r pwrpas gyda phedair ystafell llys yng Nghasnewydd, sy'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae mannau aros ar wahân ar gyfer tystion yr erlyniad a thystion yr amddiffyniad, gyda chyfleusterau toiled yr un. Mae ystafell ar gyfer tystion bregus ar gael, gydag offer cyswllt fideo ar gyfer tystion bregus ac ofnus, gan gynnwys toiled i bobl anabl. Cafodd Llys Ynadon Cwmbrân ei ailwampio tua thair blynedd yn ôl, ac mae pedair ystafell llys, tair ar y llawr gwaelod ac un ar y llawr cyntaf. Mae ystafelloedd ar wahân ar gyfer gofalu am dystion, ac ystafelloedd ar gyfer y gwasanaeth prawf a chyfreithwyr. Hefyd, gellir rhestru gwrandawiadau'r llys ynadon yn Llys y Goron Casnewydd i ddefnyddio'r slotiau gwag yno.

Mae Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro yn adeilad llys mawr gyda 12 ystafell llys, yn adeilad modern a hyblyg.

Bydd neilltuo eisteddiadau ynadon yn parhau i gael eu gwneud yn seiliedig ar ddewis ynadon unigol. Ni fydd disgwyl na gofyn i unrhyw un eistedd mewn lleoliad nad yw'n hwylus iddynt.

Pwysleisiodd ymgynghoriad ar gau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili y byddai rhai defnyddwyr llys o Gaerffili efallai yn cael eu gwasanaethu yn well pe byddai gwaith o'r llys hwnnw yn symud i Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd a'r Fro, neu'n cael ei rannu rhwng Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Caerdydd a'r Fro, y Cymoedd a Gwent.

Byddai'r Ynadon hynny o Ardal Cyfiawnder Lleol Gwent a'r rhai hynny sy'n eistedd fel arfer yn Llys Ynadon Caerffili yn cael cynnig i aros yn Ardal Cyfiawnder Lleol Gwent neu drosglwyddo i Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd a'r Fro, a chadw eu gwybodaeth o gymuned leol lle bydd y gwaith yn cael ei wrando.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr y llys, ynadon, y farnwriaeth, staff a phartïon eraill sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth o ran trefniadau cyfiawnder lleol yng Ngwent, ac yn gyffredinol o fewn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru.

Mae fersiwn Saesneg o'r papur ymgynghori hwn ar gael yn www.justice.gov.uk.

Anfonir copïau o'r ymgynghoriad hwn at:

Wayne David AS Caerffili
Chris Evans AS Islwyn
Paul Flynn AS Gorllewin Casnewydd
Jessica Morden AS Dwyrain Casnewydd
Kevin Brennan AS Gorllewin Caerdydd
Stephen Doughty AS De Caerdydd
Jo Stevens AS Canol Caerdydd
Craig Williams AS Gogledd Caerdydd
David Davies AS Mynwy
Nick Thomas-Symonds AS Torfaen
Owen Smith AS Pontypridd
Gerald Jones AS Merthyr Tudful a Rhymni
Nick Smith AS Blaenau Gwent
Alun Cairns AS Bro Morgannwg

Alun Davies AC Blaenau Gwent
Mohammad Asghar AC Dwyrain De Cymru
Jocelyn Davies AC Dwyrain De Cymru
Lindsay Whittle AC Dwyrain De Cymru
William Graham AC Dwyrain De Cymru
Jeff Cuthbert AC Caerffili
Gwyn Price AC Islwyn
Nick Ramsay AC Mynwy
John Griffiths AC Dwyrain Casnewydd
Y Fonesig Rosemary Butler AC Gorllewin Casnewydd
Mick Antoniw AC Pontypridd
Lynne Neagle AC Torfaen
Huw Lewis AC Merthyr Tudful a Rhymni

Leanne Wood AC Canol De Cymru
David Melding AC Canol De Cymru
Andrew RT Davies AC Canol De Cymru
Jane Hutt AC Bro Morgannwg
Elunedd Parrott AC Canol De Cymru
Jenny Rathbone AC Canol Caerdydd
Julie Morgan AC Gogledd Caerdydd
Vaughan Gething AC De Caerdydd a Phenarth
Mark Drakeford AC Gorllewin Caerdydd

Jeff Farrar, Prif Gwnstabl Gwent
Peter Vaughan, Prif Gwnstabl De Cymru
Ia Johnston Medal Heddlu'r Frenhines (QPM), Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent
Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru

Ed Beltrami, Prif Erlynydd y Goron, Cymru

Yr Arglwydd Ustus Gross, Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr
Mr Ustus Wyn Williams, Barnwr Llywyddol Cylchdaith Cymru
Ei Hanrhydedd y Barnwr E Rees, Barnwr Preswyl Caerdydd, Casnewydd a Merthyr Tudful
Ei Anrhydedd y Barnwr D Williams, Barnwr Cyswllt yr Ynadon yng Ngwent
Ei Anrhydedd y Barnwr T Crowther CF, Barnwr Cyswllt yr Ynadon yn Ne Cymru
Uwch Farnwr Rhanbarth, Y Prif Ynad, Howard Riddle
Y Barnwr Rhanbarth (LlY) M Brown
Y Barnwr Rhanbarth (LlY) B Jenkins
Y Barnwr Rhanbarth (LlY) N Thomas
Y Barnwr Rhanbarth (LlY) R Williams
Barnwr Rhanbarth (LlY) D Parsons

D T Bowen, Crwner Gwent
T Atherton, Crwner Caerdydd a Bro Morgannwg
Richard Monkhouse, Cadeirydd Cymdeithas yr Ynadon
Zoe Tothill Scott YH, cynrychiolydd Cymdeithas yr Ynadon
Hywel Thomas YH, Cadeirydd Mainc Caerdydd a'r Fro
Penny Reeves YH, Cadeirydd Mainc Gwent
Syr Simon Boyle, Arglwydd Raglaw Gwent a Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol
Mrs Kathrin (Kate) Thomas CRVO YH LS, Arglwydd Raglaw Morgannwg Ganol a Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol
Doctor Peter Beck MD FRCP YH, Arglwydd Raglaw De Morgannwg a Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol
D Byron Lewis Ysw, Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg a Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol
Is-gyrnol A S Tuggey DL, Uchel-Siryf Gwent
**Mrs Jayne James, Uchel-Siryf Morgannwg Ganol**
**Yr Athro H V Stevens CBE, Uchel-Siryf De Morgannwg**
**R M Redfern Ysw, Uchel-Siryf Gorllewin Morgannwg**

Vicky Self, Tîm Troseddwyr Ifanc Casnewydd
Michaela Rogers, Tîm Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Caerffili a Blaenau Gwent
Stuart Barnett, Gwasanaeth Hebrwng a Chaethiwo Carcharorion (PECS)
Cheryl-Anne Sanderson, Rheolwr Rhanbarthol, G4S
Sarah Payne, NOMS Cymru

Gillian Baranski, CAFCASS Cymru
Ruth Fenby, GeoAmey
Paul Davies, Awdurdod Cymorth Cyfreithiol
Theodore Huckle CF, Cwnsler Cyffredinol Cymru
Lowri Morgan, Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cymru
Paul Lewis CF, Arweinydd y Bar
David Waggett, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Will Godfrey, Prif Weithredwr, Cyngor Dinas Casnewydd
Rob Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyngor Bro Morgannwg
Chris Burns, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Caerffili
Steve Merritt, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf
Alison Ward, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Paul Matthews, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Fynwy
Paul Orders, Prif Weithredwr, Cyngor Dinas Caerdydd

Staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn Llysoedd Ynadon Gwent
Staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn Llysoedd Ynadon Bro Morgannwg
David Bartlett, Cynrychiolydd Rhanbarthol yr Undeb Llafur, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

June Milligan, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru
Un Llais Cymru, Grŵp sy’n Cynrychioli Cynghorau Cymuned
Cymorth i Ddioddefwyr, Cymru
Cyfreithwyr yr Amddiffyniad
Comisiynydd y Gymraeg

Nid yw’r rhestr hon i fod yn gyflawn nac yn gyfyngedig a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn ar y pwnc a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn.

## Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a roddir yn y papur ymgynghori hwn.

Cwestiwn 1: BETH FYDD YR EFFAITH ARNOCH CHI AC/NEU EICH SEFYDLIAD:

1. **Opsiwn un: gwneud dim**

2. **Opsiwn dau: uno Caerffili gyda Chaerdydd a Bro Morgannwg; ac**

3. **Opsiwn tri: Uno rhan o fwrdeistref Sirol Caerffili gyda'r Cymoedd a rhan gyda Chaerdydd a Bro Morgannwg a rhan gyda Gwent.**

Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, beth yw manteision neu anfanteision pob un o'r opsiynau hyn ar gyfer eraill, e.e. dioddefwyr a thystion?

Cwestiwn 3: Beth fyddai'n rhaid i chi ei wneud fel unigolyn neu sefydliad i sicrhau bod pob un o'r opsiynau'n gweithio, pe gwneir penderfyniad i weithredu?

**Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl eich swydd** neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayb) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni / sefydliad** (lle bo hynny'n berthnasol) | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn. | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

## Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 13 Tachwedd 2015 i:
Ymgynghoriad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru
Uned Gefnogi Cymru
2il Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro,
Plas Fitzalan
Caerdydd
CF24 0RZ

Ffôn: 029 2046 7767

**Ebost: HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk**

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch o broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

### Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn http://www.justice.gov.uk/index.htm

Gellir gwneud cais am fformatau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn gan [e-bost/rhif ffôn o'r adran bolisi sy'n noddi].

### Cyhoeddi ymateb

Bydd papur gyda chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar-lein yn http://www.justice.gov.uk/index.htm.

### Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

### Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am inni drin y wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna Gôd Ymarferol statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â fo ac sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro inni pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a roesoch inni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad

cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â’r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd parti.

## Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf

© Hawlfraint y Goron 2013
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau eraill o'r adroddiad hwn ar gael ar gais gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, Uned Gefnogi Cymru ar 029 2046 7767.